**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/3556/22

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Ionawr 2023

Annwyl John,

**<u>Gwybodaeth ddilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar ddigartrefedd</u>**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2022 yn gofyn am ychydig o wybodaeth ychwanegol ar ôl imi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 7 Rhagfyr 2022. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith ac am y gydnabyddiaeth yn eich llythyr i'r gwaith sylweddol y mae'r awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau, Llywodraeth Cymru ac eraill wedi'i wneud i weithredu'r polisi *Neb heb Help* yng Nghymru. Hoffwn ddiolch ichi hefyd am gydnabod nad oes unrhyw amheuaeth bod hynny wedi achub bywydau.

***Pwysau'r Gaeaf***

Fel y dywedais yn fy mhapur tystiolaeth i'r Pwyllgor, rwy'n cydnabod y pwysau mawr sydd ar wasanaethau tai a digartrefedd. Mae effaith y pandemig, sy'n parhau, yr argyfwng costau byw, fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat (PRS) a'r argyfwng dyngarol sy'n deillio o'r rhyfel yn Wcráin, oll wedi rhoi cryn bwysau ar wasanaethau tai ac ar ein partneriaid ehangach ac wedi golygu bod angen dibynnu mwy ar lety dros dro yn y tymor byr.

Mewn ymateb i'r pwysau hynny, er mwyn helpu'r awdurdodau lleol i sicrhau digon o lety dros dro ar gyfer y bobl sydd mewn angen, er mwyn cyflwyno rhagor o fesurau i atal digartrefedd, ac er mwyn darparu rhagor o lety camu ymlaen, bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi fy mod wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae £10 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r awdurdodau lleol yn 2022/23 i'w helpu i atal digartrefedd ac i ysgwyddo costau llety dros dro. Mae hynny'n cael ei wireddu o ganlyniad i'r cydweithio parhaus gyda'n partneriaid, Plaid Cymru, o dan y Cytundeb Cydweithio. Mae'r swm hwnnw'n ychwanegol i'r £10 miliwn sydd wedi'i ddyrannu eisoes ar gyfer llety dros dro yn y flwyddyn ariannol hon, a'r £6 miliwn ar gyfer gwaith yn ôl disgresiwn i atal digartrefedd, a byddwn yn cynyddu'r cyllid ar gyfer y cynllun *Neb heb Help* ac ar gyfer atal digartrefedd i £26 miliwn yn 2022/23.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y pwysau yn y sector rhentu preifat, rwy'n croesawu bwriad y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ynglŷn â’r effaith y mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol (LHA) yn ei chael ar lefelau digartrefedd. Fel y dywedais yn fy thystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar, rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i godi cyfraddau’r Lwfans hwnnw. Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae cyfraddau presennol y Lwfans yn adlewyrchu lefel y rhenti yn y farchnad rhentu preifat yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ym mis Medi 2019. Rydym yn clywed adroddiadau ar hyn o bryd fod rhenti yn y sector preifat, yn enwedig y rheini ar gyfer tenantiaid newydd, yn codi’n gynt nag ar unrhyw adeg yn ystod y 13 blynedd diwethaf, sy'n golygu bod y bwlch rhwng rhenti gwirioneddol a chyfraddau’r Lwfans Cymorth Tai yn tyfu. Mae hynny, yn anochel, yn creu argyfwng o ran gallu tenantiaid sydd ar incwm isel i fforddio ac i gael gafael ar lety yn y sector rhentu preifat. Mae angen i gyfraddau’r Lwfans adlewyrchu’r data diweddaraf am y farchnad a gyflwynir i’r Adran Gwaith a Phensiynau gan swyddogion rhenti, neu adlewyrchu’r cynnydd canrannol i gyfraddau budd-daliadau eraill, pa un bynnag sydd uchaf. Mae hefyd yn bwysig cofio bod cyfradd y Lwfans Cymorth Tai, pan gafodd ei gyflwyno, wedi’i gosod ar y 50fed canradd, yn hytrach na’r 30ain canradd fel sy'n digwydd erbyn hyn, ac rwyf wedi mynd ati dro ar ôl tro i ddadlau’r achos o blaid adfer y 50fed canradd. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth y Pwyllgor wrth iddo ddwyn pwysau ar Lywodraeth y DU am y mater hwn.

***Y Digartref Gartref***

Fel y trafodwyd pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor, mae cryn rinweddau i'r cynnig ar y 'Digartref Gartref', a gallaf sicrhau'r Pwyllgor bod fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried a ddylid gweithredu yn y fath fodd, ac i edrych ar sut y gellid gwneud hynny, er mwyn rhoi hyblygrwydd i’r awdurdodau lleol, gan sicrhau ar yr un pryd fod yr awdurdodau'n cydymffurfio â'r dyletswyddau sydd arnynt a bod hawliau'r unigolyn yn cael eu diogelu.

***Cysgu Allan***

Rwy'n rhannu pryder y Pwyllgor bod y data diweddaraf a gyhoeddwyd o fis Medi ymlaen yn dangos bod cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysgu allan. Fel y noda'r Pwyllgor, mae cysgu allan yn fater cymhleth ac mae’n tynnu sylw at ba mor bwysig yw gwaith allgymorth cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, nid yn unig er mwyn helpu pobl i gael gafael ar lety, ond i'w helpu i gynnal y llety hwnnw ac i ffynnu ynddo. Mae hefyd yn bwysig peidio â cholli golwg ar y cyd-destun ehangach a'r 1,514 o bobl a ddaeth i sylw’r awdurdodau lleol oherwydd eu bod yn ddigartref yn ystod mis Medi ac a gafodd gymorth i gael llety.

Rwyf wedi bod yn glir iawn na ddylai unrhyw un gael ei orfodi i gysgu allan yng Nghymru, ac mae'r rheoliadau a basiodd y Senedd ym mis Hydref er mwyn creu 11eg categori o Angen Blaenoriaethol, yn sicrhau bod modd inni barhau â’n polisi *Neb heb Help* a bod unrhyw un sy'n ddigartref ar y stryd yng Nghymru yn cael ei ystyried yn rhywun sydd mewn angen blaenoriaethol am lety. Bydd y cyllid ychwanegol y cyfeirir ato uchod ar gyfer y flwyddyn ariannol hon hefyd yn helpu’r awdurdodau lleol i barhau i weithredu yn hyn o beth.

***Safonau llety dros dro***

Fel y trafodwyd yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar, ac fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae hwn yn faes cymhleth. Er mai ein nod cyffredinol o hyd yw lleihau’n dibyniaeth ar lety dros dro, yn enwedig gwestai a llety gwely a brecwast, mae angen inni weithio gyda’r awdurdodau lleol i sicrhau gostyngiad cyflym yn y defnydd ohonynt, gan wneud hynny mewn ffordd y gellir ei rheoli ac a fydd yn osgoi unrhyw risg i’r math hwn o ddarpariaeth gael ei dileu’n ddisymwth. Mae angen hefyd inni wneud hynny mewn ffordd a fydd yn caniatáu

inni gyflwyno atebion eraill o ran llety, megis y rheini yr ydym yn eu hariannu drwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro.

Bydd y Pwyllgor am nodi bod y canllawiau statudol presennol yn datgan yn glir y dylai llety dros dro fod yn addas, ac y dylai'r awdurdodau fod yn darparu cymorth priodol i bobl mewn llety dros dro fel y bo modd eu helpu i symud i lety sefydlog mwy hirdymor cyn gynted â phosibl. Mae'r Cod Canllawiau yn pennu bod yn rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw i amgylchiadau unigol yr ymgeisydd, ac anogir yr awdurdodau lleol i sicrhau bod asesiad o'r anghenion yn cael ei gynnal yn yr ystyr ehangaf wrth iddynt fynd ati i benderfynu a yw llety'n addas ai peidio, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r dyletswyddau sydd arnynt o dan Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, roedd rhan o'r ymgynghoriad ar y trefniadau cyfreithiol trosiannol yn ymgynghori hefyd ar welliannau posibl i'r gofynion o ran addasrwydd yn y ddeddfwriaeth, yng nghyd-destun gwestai a llety gwely a brecwast. Tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at gymhlethdod y mater hwn o ystyried y pwysau cynyddol sydd ar yr awdurdodau lleol. Mae rhagor o waith wrthi'n cael ei wneud ar y mater hwn ac rydym yn ymgynghori â phartneriaid unwaith eto er mwyn penderfynu ar y mesurau trosiannol mwyaf priodol yn y maes hwn, ac rydym yn disgwyl y byddwn yn gallu amlinellu'r ffordd ymlaen yn fuan.

***Y Cyflenwad Tai***

Buom yn trafod y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor, a pha mor bwysig yw hi bod y rhaglen honno'n un hyblyg a chreadigol fel y bo modd darparu rhagor o lety hirdymor o ansawdd da er mwyn helpu pawb sydd mewn angen o ran tai ac i ddarparu rhagor o lety camu ymlaen er mwyn lleihau'r pwysau ar lety dros dro. Bydd y Pwyllgor am nodi felly fy mod wedi cyhoeddi £24 miliwn yn ychwanegol eleni ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, sy'n golygu bod cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y Rhaglen yn £89 miliwn yn 2022/23.

O ran Cynllun Lesio Cymru, mae nifer o'r awdurdodau lleol wedi nodi cyfleoedd posibl i gynnwys rhagor o eiddo eleni, ac rydym wrthi'n gweithio gyda nhw i sicrhau'r eiddo hwnnw. O ran gwneud y cynllun yn fwy deniadol i landlordiaid, aethom ati'n ddiweddar i gynyddu'r arian grant posibl sydd ar gael i landlordiaid drwy gynnwys grant ychwanegol o £5,000 i wella effeithlonrwydd eiddo o ran ynni, gan anelu at sgôr EPC C. Mae hynny'n golygu y gallai'r landlordiaid hynny sy'n ymuno â'r cynllun am gyfnod o 5 mlynedd gael hyd at £10,000 ac y gallai'r rheini sy'n cofrestru ar ei gyfer am 25 mlynedd fod yn gymwys i gael hyd at £30,000.

***Y Cynllun Gweithredu i Roi Terfyn ar Ddigartrefedd***

Fel yr amlinellwyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, byddwn yn mynd ati yn gynnar eleni i ddiweddaru'r camau gweithredu yn ein Cynllun Gweithredu i Roi Terfyn ar Ddigartrefedd. Rwy'n rhagweld y bydd y Cynllun Gweithredu ar ei newydd wedd yn cael ei gyhoeddi erbyn dechrau'r gwanwyn, ac y bydd camau'n cael eu diweddaru a chamau newydd yn cael eu cynnwys bryd hynny.

O ran y Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym, gallaf roi gwybod i'r Pwyllgor ein bod bellach wedi cael cynlluniau terfynol oddi wrth 8 awdurdod lleol a'n bod yn rhagweld y byddwn yn cael y 14 o gynlluniau terfynol oddi wrth yr awdurdodau eraill yn ystod yr wythnosau nesaf. Gwelwyd oedi wrth gyflwyno rhai o'r cynlluniau mewn nifer o'r awdurdodau lleol oherwydd bod ganddynt brosesau cymeradwyo mewnol gwahanol ar lefel swyddogion ac ar y lefel wleidyddol.

***Deddfwriaeth***

O ystyried y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud eisoes ar ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru, gallaf gadarnhau bod y Papur Gwyn a fydd yn cael ei gyflwyno ar ddiwygio deddfwriaeth ar ddigartrefedd yn un cwbl ar wahân i'r Papurau Gwyrdd a Gwyn arfaethedig ar yr hawl i dai digonol ac ar reolaeth ar renti. Er bod ambell beth yn gyffredin rhwng y gwaith ar bob papur, maent wedi cyrraedd camau gwahanol iawn o ran eu datblygiad a byddant yn cael eu datblygu ar wahân.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ddangos diddordeb, am eich ymwneud â’r gwaith hwn, ac am eich cefnogaeth wrth inni fwrw ymlaen â'n nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change